

Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

Y Cynghorydd D M Hughes

Ward: Bro Ogwr

Plaid: Annibynnol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2025**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

Y Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi eistedd ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 1 a 2 (Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol) a Chydraddoldeb Pwyllgorau'r Cabinet ynghyd â chyfarfodydd y Cyngor Llawn.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill y mae trigolion wedi gofyn i mi helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl, rwyf wedi mynychu Gweithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon:

[Y Cynghorydd Della Hughes](#)

Gweithgareddau Etholaethol

Rwyf wedi parhau i gryfhau cysylltiadau â grwpiau a sefydliadau lleol.

Mae cyfathrebu â thrigolion yn allweddol ac rwyf wedi cynnal sesiynau galw heibio rheolaidd yn OVLC a Chlwb Bowlio Cwm Ogwr, ac wedi rhoi gwybod i bobl drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Rwy'n weladwy yn y gymuned ac yn hapus i gwrdd â thrigolion yn eu cartrefi.

Rwyf wedi gweithio ac yn parhau i weithio'n agos gyda Better Buses for the Ogmores Valley o ran gwasanaethau bysus.

Mae'r grŵp amgylcheddol Ogmores Valley Priide yn gweithio'n galed iawn yn ein dyffryn, ac rwyf wedi cysylltu â BCBC ynglŷn â llawer o faterion amgylcheddol.

Rwy'n Llywodraethwr AALI yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Corff Llywodraethu newydd i gefnogi'r ysgol ar eu taith gwella ysgolion.

Rwyf wedi mynychu llawer o ddigwyddiadau lleol: yr ysgol, y Gymdeithas Hanes, y Côr, y Clwb Bowlio i enwi ond ychydig.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi parhau i drafod adfywio ardal Park Avenue gyda phartïon â diddordeb ac edrychaf ymlaen at weld yr ardal yn gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gennym gyrtiau tenis newydd hyfryd ac mae'r cynlluniau ar gyfer Ardaloedd Chwaraeon Amldeffnydd wedi dwyn ffrwyth.

Rwyf wedi estyn gwahoddiad i fynychu fy sesiynau galw heibio i'r Cynghorwyr Cymuned sy'n cynrychioli ward Cwm Ogwr, er mwyn i drigolion siarad â'u cynrychiolwyr OVCC a BCBC.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Mae Gollwng a Siopa Cymunedol wedi parhau i fod yn llwyddiant. Y nod yw lleihau gwastraff a darparu eitemau cost isel yn lleol. Roeddem yn y sefyllfa ffodus eleni i allu rhoi rhywfaint o'n helw yn lleol, yn unol â'n nodau a'n hamcanion.

Caniaaodd rheoleiddiwr CBC roddion i Baobab Bach CBC a Ogmores Valley Priide. Rhannodd Ogmores Valley Priide y rhodd gyda Cadwch Nant-y-moel yn Daclus a Blackmill Bravos fel bod y dyffryn cyfan yn elwa.

Mae'r siop yn cael ei chefnogi'n dda gan y gymuned ac mae ganddi 12 o wirfoddolwyr o bob rhan o ardal Cwm Ogwr.

Y Cyngorydd D M Hughes

Dyddiad:25/07/2024